# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 1**

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Trwyddedu*

**27 Apelau trwyddedu**

(1) Caiff ceisydd am drwydded neu, yn ôl y digwydd, ddeiliad trwydded, apelio i dribiwnlys eiddo preswyl yn erbyn y penderfyniadau a wneir gan awdurdod trwyddedu a restrir yn is-adran (2).

(2) Y penderfyniadau yw—

(a) rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amod, ac eithrio'r gofyniad i gydymffurfio ag unrhyw god ymarfer a ddyroddir gan Weinidogion Cymru;

(b) gwrthod cais am drwydded;

(c) diwygio trwydded;

(d) dirymu trwydded.

(3) Mewn perthynas ag apêl—

(a) rhaid ei gyflwyno cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n cychwyn gyda'r dyddiad yr hysbyswyd y ceisydd am y penderfyniad (y "cyfnod apelio");

(b) gellir penderfynu arno drwy roi sylw i faterion nad oedd yr awdurdod trwyddedu yn ymwybodol ohonynt.

(4) Caiff y tribiwnlys ganiatáu i apêl gael ei gyflwyno iddo ar ôl diwedd y cyfnod apelio os yw'n fodlon bod rheswm da dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw (ac am unrhyw oedi cyn gofyn am ganiatâd i apelio y tu allan i'r cyfnod hwnnw).

(5) Caiff y tribiwnlys gadarnhau penderfyniad yr awdurdod trwyddedu neu fel arall—

(a) yn achos penderfyniad i roi trwydded yn ddarostyngedig i amod, cyfarwyddo'r awdurdod i roi trwydded ar y cyfryw delerau ag y mae'r tribiwnlys yn eu hystyried yn briodol;

(b) yn achos penderfyniad i wrthod cais am drwydded, cyfarwyddo'r awdurdod i roi trwydded ar y cyfryw delerau ag y mae'r tribiwnlys yn eu hystyried yn briodol;

(c) yn achos penderfyniad i ddiwygio trwydded, cyfarwyddo'r awdurdod i beidio â diwygio'r drwydded neu i ddiwygio'r drwydded ar y cyfryw delerau ag y mae'r tribiwnlys yn eu hystyried yn briodol;

(d) yn achos penderfyniad i ddirymu trwydded, dileu'r penderfyniad hwnnw.

(6) Mae trwydded a roddwyd gan awdurdod trwyddedu yn dilyn cyfarwyddyd gan dribiwnlys o dan yr adran hon i'w thrin fel pe bai wedi ei rhoi gan yr awdurdod o dan adran 21(1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 27 mewn grym ar 23.11.2015 gan O.S. 2015/1826, **ergl. 2(q)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 27.